Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Cyfansoddiad – Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Tachwedd 2009

## Beth yw Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (CGD)?

O dan Ran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("y Ddeddf") mae'r Cynulliad yn cael pasio deddfwriaeth, o'r enw "Mesurau Cynulliad", mewn materion lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae Adran 95 o'r Ddeddf, ynghyd ag Atodlen 5, yn nodi hyd a lled cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy restru "Meysydd" datganoledig a "Materion" ym mhob Maes. Caniateir i Atodlen 5 gael ei diwygio i ychwanegu "Materion" gan ehangu cymhwysedd cyfreithiol y Cynulliad. Gall hyn gael ei wneud naill ai drwy Ddeddf Seneddol, neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan y ddau dŷ yn Senedd San Steffan.

Math arbennig o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor yw LCO. Ffurf ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Frenhines yn ôl cyngor y Cyfrin Gyngor yw Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ac, os cânt eu gwneud o dan bwerau a roddir mewn Deddf Seneddol, weithiau mae angen cymeradwyaeth seneddol ymlaen llaw, ond nid bob amser. Caiff Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor eu defnyddio, er enghraifft, pan fydd angen deddfwriaeth i roi ymrwymiadau cytuniad ar waith neu i drosglwyddo cyfrifoldebau o'r naill adran yn y Llywodraeth i'r llall; neu oddi ar Weinidogion Llywodraeth y DU i Weinidogion awdurdodaethau datganoledig. Dyma rai enghreifftiau: *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999*[1] a *Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau( (Rhif 2) 2009* a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Senedd.

LCO felly, yw Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed yn benodol mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan ddarpariaethau yn adran 95(1) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

[1] Taflen Ffeithiau Tŷ'r Cyffredin, Offerynnau Statudol, L7, Ionawr 2007

## Cymeradwyo Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae'r Ddeddf yn darparu i'r Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd gymeradwyo Gorchmynion drafft yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 95(1) cyn i'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor eu cymeradwyo.[2]

Os Llywodraeth Cymru sy'n cynnig y Gorchymyn, mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf[3] yn nodi y bydd y prif gamau trefniadol, fel arfer, yn cynnwys:

- Paratoi Gorchymyn arfaethedig yn dilyn trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru, yr adrannau perthnasol yn Whitehall a Swyddfa Cymru. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cwmpas y Gorchymyn arfaethedig yn glir ac y bydd yn rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'i amcan polisi;[4]
- Craffu ar y Gorchymyn arfaethedig yn y Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd. Nid yw'r prosesau hyn wedi'u rhagnodi yn y Ddeddf;
- Y prosesau ffurfiol (statudol) i'r Cynulliad a dau Dŷ'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn drafft terfynol, a fydd wedi'i addasu fel y bo'n briodol yn dilyn y prosesau o graffu arno cyn y broses ddeddfu. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd modd diwygio'r Gorchymyn drafft gan y bydd angen i'r Cynulliad a Senedd y DU gymeradwyo'r un testun;
- Wedi i'r Cynulliad gymeradwyo Gorchymyn drafft, bydd yn rhaid i Brif Weinidog Cymru ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i roi gwybod iddo cyn gynted ag y bod hynny'n rhesymol ymarferol. Cyn pen 60 diwrnod, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol naill ai osod y Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd neu ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i esbonio pam nad yw'n barod i wneud hynny;
- Cyn gynted ag y bydd Gorchymyn sy'n rhoi pwerau deddfu ychwanegol wedi'i wneud (drwy ychwanegu Mater neu Faterion at Atodlen 5 i Ddeddf 2006), bydd y cymhwysedd yn barhaus. Mae hyn yn golygu y gall y Cynulliad wneud pa Fesurau bynnag a ddymuna, gan gynnwys Mesurau i ddiwygio Mesurau blaenorol, mewn perthynas â'r Mater hwnnw.

## Gweithdrefnau yn y Cynulliad i gymeradwyo Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

Mae Rheol Sefydlog 22 yn ymdrin â'r gweithdrefnau sydd ar gael yn y Cynulliad i graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ac i'w cymeradwyo.

### Craffu ar Orchmynion arfaethedig yn y Cynulliad

Mae Gorchymyn 22 yn cynnwys gweithdrefnau i graffu ar "**Orchmynion arfaethedig**" y gall Aelod o Lywodraeth Cymru, pwyllgor neu Aelod unigol ei osod.

Pan fydd Aelod yn gosod Gorchymyn arfaethedig, rhaid iddo hefyd osod **Memorandwm**

[2] Mae'r term "y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor" yn cyfeiro at yr arfer o wneud Gorchmynion "yn ôl cyngor a chyda chyngor y Cyfrin Gyngor".
[3] *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32), Nodiadau Esboniadol, para.317
[4] Mae angen y trafodaethau hyn hefyd i sicrhau nad oes gan adrannau Whitehall unrhyw wrthwynebiad sylfaenol i'r cynnig i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol.

**Esboniadol**. Rhaid gosod Gorchymyn arfaethedig ar ffurf benodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

Rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Gorchymyn arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth a fydd yn craffu'n fanwl arno, **neu**, rhaid cyflwyno cynnig yn y Cyfarfod Llawn i beidio ag ystyried y Gorchymyn arfaethedig yn fanwl.

Os yw'r Gorchymyn arfaethedig yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth i'w ystyried yn fanwl, rhaid i'r pwyllgor hwnnw ei drafod a pharatoi adroddiad arno. Wrth baratoi'r adroddiad, rhaid i'r pwyllgor ystyried y canlynol, os yw'n hynny'n rhesymol ymarferol:

- unrhyw argymhelliad a wnaed mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig gan un o bwyllgorau eraill y Cynulliad; ac
- unrhyw argymhelliad a wnaed mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig gan un o bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi neu gan unrhyw gyd-bwyllgor o ddau Dŷ'r Senedd.

Os cytunir ar y cynnig i beidio ag ystyried y Gorchymyn arfaethedig yn fanwl, gall yr Aelod sy'n gyfrifol am y Gorchymyn arfaethedig gyflwyno Gorchymyn drafft sy'n ymwneud â Gorchymyn arfaethedig (gweler isod). Os na chytunir ar y cynnig, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Gorchymyn drafft at Bwyllgor Deddfwriaeth a fydd yn ei ystyried yn fanwl.

## Taith Gorchmynion drafft drwy'r Cynulliad

Ar ôl i'r Gorchymyn arfaethedig gael ei ystyried yn fanwl neu ar ôl cytuno ar gynnig i beidio â gwneud hynny, caiff y Gorchymyn drafft (fel y'i diwygiwyd) ei gyflwyno fel **Gorchymyn drafft**. **Ni ellir** newid testun Gorchymyn drafft.

Gall Aelodau Llywodraeth Cymru, un o bwyllgorau'r Cynulliad neu Aelod unigol gyflwyno Gorchymyn drafft.

Pan gaiff Gorchymyn drafft ei gyflwyno, rhaid gosod **Memorandwm Esboniadol** hefyd, a rhaid i hwn gynnwys:

- esboniad o'r modd yr ystyriwyd unrhyw argymhelliad gan un o bwyllgorau'r Cynulliad neu un o bwyllgorau dau Dŷ'r Senedd a fu'n ystyried y Gorchymyn arfaethedig; a'r
- y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y Gorchymyn drafft a'r Gorchymyn arfaethedig y mae'n berthnasol iddo.

Cyn pen 40 o ddyddiau gwaith ar ôl cyflwyno Gorchymyn drafft, rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Balot ymhlith Aelodau i gyflwyno Gorchymyn arfaethedig Aelod

Rhaid i'r Llywydd, bob hyn a hyn, gynnal balot i ddewis enw Aelod, nad yw'n Aelod o Lywodraeth Cymru, sy'n dymuno gosod Gorchymyn arfaethedig Aelod.

Yn y balot, rhaid i'r Llywydd gynnwys enwau'r holl Aelodau sydd wedi gwneud cais i gael eu cynnwys ac sydd wedi paratoi Gorchymyn arfaethedig amlinellol a Memorandwm

Esboniadol. Os bydd yn llwyddiannus yn y balot, rhaid i Aelod ofyn i'r Cynulliad gytuno iddo neu iddi osod y Gorchymyn arfaethedig.

## Gweithdrefnau yn San Steffan i gymeradwyo Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

### Craffu ar Orchmynion arfaethedig cyn y broses ddeddfu yn San Steffan

Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi prosesau i graffu ar Orchmynion **arfaethedig** cyn y broses ddeddfu yn San Steffan. Nid oes darpariaethau ychwaith yn Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin na Thŷ'r Arglwyddi yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer Gorchmynion arfaethedig.

Er bod Gorchymyn drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad at ddibenion craffu ffurfiol, rhaid nodi nad yw Gorchmynion drafft yn cael eu gosod yn San Steffan nes y byddant yn Orchmynion drafft; dilynir yr hen arfer o'u cyflwyno ar ffurf Papur Gorchymyn.

Er bod yn rhaid i'r Gweinidog Gwladol gyflwyno cynigion gerbron y ddau Dŷ, nid oes rheidrwydd ar y naill Dŷ na'r llall i'w hystyried nac i gyflwyno adroddiad arnynt. Yn statudol, cyn cyflwyno Gorchymyn drafft, nid yw'n ofynnol craffu'n ffurfiol arno cyn y broses ddeddfu; y cyfan sydd ei angen yw bod y ddau Dŷ wedi cael cyfle i ystyried y Gorchymyn drafft.

Yn ôl y ddefod a'r arfer sydd wedi datblygu, caiff Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi eu gwahodd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i graffu ar Orchmynion arfaethedig cyn y broses ddeddfu. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno'r Gorchymyn ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig gerbron Senedd y DU.[5]

### Taith Gorchmynion drafft drwy San Steffan

Ar ôl i'r Cynulliad gymeradwyo **Gorchymyn drafft**, rhaid i Brif Weinidog Cymru ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i roi gwybod iddo.

Cyn pen 60 diwrnod, rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru naill ai osod y Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd neu ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i esbonio pam nad yw'n barod i wneud hynny.

Ar ôl gosod y Gorchymyn drafft gerbron Senedd y DU, bydd y Cyd-bwyllgor Offerynnau Statudol yn craffu arno, ac mae'n bosibl y bydd yn paratoi adroddiad arno i roi gwybod i Aelodau'r ddau Dŷ am faterion technegol fel cywirdeb y gwaith drafftio ac a oes unrhyw amheuaeth a yw'r Gorchymyn drafft o fewn y pwerau a ddirprwywyd gan Senedd y DU. Caiff Gorchmynion drafft eu hystyried hefyd gan Bwyllgor Rhinweddau Offerynnau Statudol yr Arglwyddi.

I gwblhau'i daith ddeddfwriaethol, rhaid i ddau Dŷ'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn drafft (nad oes modd ei ddiwygio) o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Yn

[5] Mae Llywodraeth y DU wedi ymgymryd i roi cyfle i Senedd y DU graffu ar Orchmynion cyn y broses ddeddfu, oni bai bod hynny'n anymarferol oherwydd bod angen pasio deddfwriaeth ar frys.

ymarferol, cynhelir trafodaeth ar Orchymyn drafft yn un o bwyllgorau deddfwriaeth dirprwyedig Tŷ'r Cyffredin fel arfer, er bod hynny wedi digwydd yn yr Uwch-bwyllgor Cymreig hefyd[6]. Yn achos Tŷ'r Arglwyddi, cynhelir y drafodaeth fel arfer yn yr Uwch-bwyllgor neu ar lawr y Siambr. Ym mhob achos, rhaid cael pleidlais ffurfiol ar lawr y ddwy Siambr ar ôl y drafodaeth.

Os caiff y Gorchymyn drafft ei gymeradwyo gan y ddau Dŷ, bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn argymell i'w Mawrhydi bod y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei wneud.

## Diddymu Senedd y DU a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Pan gaiff Senedd y DU ei diddymu, daw ei hoes i ben ynghyd â holl fusnes Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Bydd hyn yn digwydd cyn pob etholiad cyffredinol.

Ar ôl diddymu'r Senedd, bydd yr holl weithgareddau busnes ffurfiol ac unrhyw fusnes nad yw wedi'i gwblhau'n dod i ben, gan gynnwys busnes yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mater i Lywodraeth y DU fydd penderfynu a yw am neilltuo amser yn y ddau Dŷ i gymeradwyo unrhyw Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol sydd ar y gweill cyn diddymu'r Senedd ar gyfer etholiad cyffredinol.

### *Hynt Gorchmynion arfaethedig os caiff Senedd y DU ei diddymu*

Os na chaiff Gorchymyn **arfaethedig** ei gymeradwyo cyn diddymu Senedd y DU, bydd yn methu yn San Steffan. Llywodraeth nesaf y DU fydd yn penderfynu a yw am ailgyflwyno Gorchymyn arfaethedig a fethodd yn y Senedd flaenorol.

### *Hynt Gorchmynion drafft os caiff Senedd y DU ei diddymu*

Nid yw Gorchymyn **drafft** yn methu os caiff Senedd y DU ei diddymu. Gall Gweinidog yn Llywodraeth y DU benderfynu ailgyflwyno'r cynnig i'w gymeradwyo, neu ei dynnu'n ôl.

Os yw LCO wedi cael cymeradwyaeth gan ddau Dŷ'r Senedd, ond nid cymeradwyaeth Frenhinol, cyn diddymu'r Senedd, nid oes angen dilyn unrhyw weithdrefnau seneddol eraill cyn mynd i'r Cyfrin Gyngor.

Fel arfer, ni fydd y Cyfrin Gyngor yn cyfarfod i ddelio'n benodol ag offerynnau Gorchmynion y Cyfrin Gyngor sydd ar y gweill cyn diddymu'r Senedd; cânt eu trafod, yn hytrach, yn y cyfarfod cyfleus nesaf os bydd hynny'n briodol ac os dyna benderfyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU, naill ai cyn i'r Senedd nesaf ailymgynnull neu wedyn.

[6] Cyfarfu'r Uwch-bwyllgor Cymreig ar 14 Hydref 2009 i drafod Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (yr Iaith Gymraeg) 2009.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am broses o wneud Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, cysylltwch â **Llinos Madeley** (Llinos.Madeley@Wales.gsi.Gov.UK), Clerc Gweithdrefnau.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r teitlau yng nghyfres y cyfansoddiad, cysylltwch ag **Alys Thomas** (Alys.Thomas@Wales.gsi.Gov.UK), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs a ganlyn.

- **Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol sydd ar waith**
- **Nodiadau tracio pwerau'r Cynulliad**
- **Geirfa**

Gallwch weld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS 07/0716(Update) Llinos Madeley**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**